

PRIFYSGOL BANGOR

PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

Cyfarfod: 8 Chwefror 2012

Preseanol: Dr D Assinder, Miss S Barnes, Mr R Dart, Mr J East, Mr D Fordham, Ms L Fowle, Mr A Jones, Mr A G Jones, Dr J Latchford, Ms C Monks, Dr L Murphy, Mr G Parry, Mr J Patton, Ms E Riches, Mr D Roberts, Mr E Roberts, Mr S Roberts, Mr I Salisbury, Dr L Shelley, Yr Athro P Spencer, Mr G W Jones (Ysgrifennydd).

Ymddiheuriadau: Dr G Clarke, Yr Athro J Hughes, Mrs L Meadows, Dr D M Roberts, Dr G Roberts, Dr T Woodman.

390. COFNODION

Gofynnwyd i un newid bychan gael ei wneud i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 9 Tachwedd 2011:

Cofnod 384(a) Ystafelloedd a amserlennir yn ganolog: *'Mae'r Gweithgor wrthi'n datblygu templed asesu risg ar gyfer manau a amserlennir yn ganolog. Bydd hyn yn galluogi i archebion am ystafelloedd gael eu blaenoriaethu, yn dibynnu ar y risgiau'n gysylltiedig â phob man a amserlennir'.*

Yn amodol ar y cywiriad uchod, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 9 Tachwedd 2011.

391. MATERION YN CODI

(a) Cofnod 384 (c) Adroddiad Radon:

Dechreuodd pedwerydd cam yr arolwg radon ym mis Rhagfyr 2011 a gosodwyd monitorau radon mewn adeiladau oedd newydd eu prynu/eu prydlesu ac mewn adeiladau lle gwnaed gwaith adfer er mwyn cadarnhau bod y gwaith hwnnw wedi bod yn effeithiol. Bydd y canlyniadau ar gael ym mis Ebrill 2012.

(b) Cofnod 384(d) Cynhadledd Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd-orllewin Cymru:

Mae Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Orllewin Cymru wedi ennill gwobr (arian) yng ngwobrau blynyddol Safety Groups UK am y drydedd flwyddyn yn olynol. Llongyfarchwyd pawb oedd yn rhan o'r grŵp.

(c) Cofnod 385(iii) Cyfarfod Briffio i Reolwyr:

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod briffio nesaf ddydd Llun 27 Chwefror 2012. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar straen.

(d) Cofnod 387(i) SEQOHS:

Dyfarnwyd safon SEQOHS "yn ddiamwys" i wasanaethau iechyd galwedigaethol y Brifysgol yn dilyn ymweliad SEQOHS ar 3 Chwefror. Prifysgol Bangor yw'r brifysgol gyntaf i gael y safon hon.

Llongyfarchwyd yr ymarferwr iechyd galwedigaethol a gweddill y tîm am eu hymdrechion i ennill yr achrediad.

- (e) Cofnod 387 (iii) Wythnos Ymwybyddiaeth Genedlaethol Gofal Cefn:
Daeth dros 20 o aelodau staff i'r clwb gofal cefn ar ôl y Nadolig. Cynhelir gwerthusiad o effeithiolrwydd y clwb ym mis Ebrill.
- (f) Cofnod 387 (iv) Cymorth Cyntaf:
Daeth adolygiad o'r ddarpariaeth cymorth cyntaf â rhai pryderon i'r amlwg ynglŷn ag addasrwydd cymorth cyntaf ar gyfer cyrsiau gwaith maes arbenigol. Nodwyd mai'r ymarferwr iechyd galwedigaethol sy'n arwain y cyrsiau hyn erbyn hyn.
- (g) Cofnod 387 (v) Ymwybyddiaeth Alcohol:
Adroddwyd bod tua 27% o'r staff wedi edrych ar y wefan ymwybyddiaeth alcohol cyn y Nadolig. Amcan yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth, hybu diodydd di-alcohol i yrwyr a rhoi gwybod i yfwyr am y caloriau mewn diodydd.
- (h) Cofnod 387 (vi) Ysmygu:
Cynhelir ymgyrch 'Dim Ysmygu' yn y Brifysgol ar y Diwrnod Dim Ysmygu Cenedlaethol ar 14 Mawrth 2012. Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar gefnogi staff a myfyrwyr sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmygu a chodi ymwybyddiaeth am effaith ysmygu ar bobl nad ydynt yn ysmygu.
- (i) Cofnod 387 (vii) Cefnogaeth gyda Dychwelyd i'r Gwaith:
Cynhelir cyfarfod ar 25 Ebrill 2012 rhwng yr ymarferwr iechyd galwedigaethol, meddygon teulu lleol a chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar ddysgu o brofiadau'r naill a'r llall o'r system ddychwelyd i'r gwaith newydd.
- (j) Cofnod 387 (xiv) Beiciau: Mae cynllun y Brifysgol i gefnogi staff sydd eisiau prynu beic ar waith erbyn hyn. Yn ogystal â hyn, mae gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch nifer o feiciau y gall staff a myfyrwyr eu benthyca am ddim.

392. **ADRODDIAD YR IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH CEMEGOL A BIOLEGOL**

Trafodwyd yr eitemau canlynol:

- i. *Addasiadau genynnol* Cynhelir project Dosbarth 2 ar hyn o bryd ac mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi ei gymeradwyo.
- ii. *Hyfforddiant diogelwch labordy* Mae nifer o staff llafur uniongyrchol a chontractwyr wedi cael hyfforddiant diogelwch labordy er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o beryglon mewn labordai. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud arolygon a mân waith ym mwyafrif y labordai heb oruchwyliaeth uniongyrchol.
- iii. *Pathogenau a thocsinau* Mae'r Brifysgol wedi ei hysbysu gan y Swyddfa Gartref ei bod yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Diogelwch Pathogenau a Thocsinau 2002.

393. **ADRODDIAD GAN YR IS-BWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH YMBELYDREDD**

Nodwyd y canlynol:

- i. *Digomisiynu labordai ymbelydredd ar ddiwedd eu hoest:* Mae gwaith ar y gweill i ddigomisiynu labordai ymbelydredd nad oes eu hangen mwyach. Mae'r gwaith wedi cynnwys gwaredu hen stoc ymbelydredd sydd dros ben.

- ii. *Cynllun y Brifysgol i reoli ymbelydredd:* Bwriedir adolygu'r ddogfen.
- iii. *Hyfforddiant:* Cynhaliwyd ymarfer hyfforddi ym mis Tachwedd 2011 i asesu ymateb y staff diogelwch i 'ffug' arllwysiad o ymbelydredd. Ystyriwyd bod ymateb y staff diogelwch i'r digwyddiad yn eithriadol o dda. Darperir hyfforddiant penodol i godi ymwybyddiaeth y staff diogelwch i beryglon mewn labordai erbyn hyn. Nodwyd bod y staff diogelwch yn ymdrin ag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a dylai'r ffordd maent yn ymdrin â hwy fod yn destun balchder i'r Brifysgol.

394. **ADRODDIAD GAN Y GRŴP TASG GWEITHREDU DIOGELWCH**

Nodwyd bod y grŵp tasg wedi bod yn ymwneud ag amryw o feysydd, yn cynnwys y canlynol:

- i. Arolygu'r achos o e-coli 0157
- ii. Cyllido projectau cyfalaf a phrojectau datblygu sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch
- iii. Egluro'r llinellau cyfrifoldeb yn sgil ad-drefnu Adran yr Ystadau a Chyfleusterau.

395. **ADRODDIAD DIOGELWCH TÂN**

(a) Adroddiad Adolygiad Diogelwch Tân:

Rhodddwyd crynodeb o'r adolygiad diogelwch tân. Ymysg eitemau eraill, nododd yr adolygiad bod mwyafrif o adeiladau'r Brifysgol yn meddu ar systemau diogelwch tân sydd o safon uwch na'r hyn sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth a'r safonau Prydeinig. Yn ogystal â hyn, cydnabu'r adolygiad bod y dogfennau diogelwch tân yn anodd eu dilyn a bod y gofyniad o ran profi'r larymau tân pob wythnos yn amhosib ei gyflawni mewn rhai achosion.

(b) Polisi Diogelwch Tân a Chanllawiau Diwygiedig:

Cyflwynwyd y polisi diogelwch tân diwygiedig â'r dogfennau cyfarwyddyd er gwybodaeth. Bydd y dogfennau, sy'n egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau o ran diogelwch tân, yn awr yn cael eu rhoi i'r colegau a'r adrannau am ymgynghoriad ffurfiol.

Mynegwyd pryder ynglŷn â dealltwriaeth myfyrwyr tramor a myfyrwyr rhan-amser am drefniadau gadael adeilad pan fydd y larwm tân yn canu a chafwyd trafodaeth am hynny. Awgrymwyd y byddai'n syniad da i neges ymddangos ar sgriniau'r cyfrifiaduron mewn adeilad pan fydd y larwm tân yn canu er mwyn hysbysu'r defnyddwyr bod rhaid iddynt adael yr adeilad.

(c) Trefniadau newydd i reolaeth diogelwch tân:

Nododd Swyddog Tân yr Adran Ystadau a Chyfleusterau, mai ei brif gyfrifoldeb yw rheoli asesiadau risg tân â'r camau gweithredu sy'n codi yn eu sgil a'u rhannu yn ôl cyfrifoldebau'r coleg/adran ac Ystadau a Chyfleusterau. Mae'r colegau/adrannau yn ymwybodol o'r camau sy'n rhaid iddynt eu gweithredu ac mae camau gweithredu yr Adran Ystadau a Chyfleusterau'n cael eu blaenoriaethu ar hyn o bryd.

Nodwyd y dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelwch Tân am unrhyw fater tân sy'n ymwneud ag adeiladau a systemau yn y lle cyntaf.

396. **ADRODDIAD AR Y DIGWYDDIAD *E. COLI***

Cyflwynwyd crynodeb o'r achos o *E.coli* ym meithrinfa Tir Na n-Og ddiwedd fis Tachwedd 2011. Nodwyd nad oedd unrhyw gyswllt achosol wedi ei ddarganfod gyda gweithgareddau'r feithrinfa.

Diolchwyd i bawb a fu'n gweithio i ymdrin â'r achos ac a sicrhodd bod y feithrinfa'n ail agor cyn gynted â phosib.

397. ADRODDIAD GAN UNDEB Y MYFYRWYR

Cafwyd adroddiad ar faterion iechyd a diogelwch yn Undeb y Myfyrwyr. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar weithgareddau myfyrwyr a nodwyd yr eitemau canlynol:

- i. *Clybiau a chymdeithasau*: Mae'r risg mwyaf i iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â gweithgareddau dan arweiniad myfyrwyr (dros 50 o glybiau chwaraeon a dros 80 o gymdeithasau). Mae'r gwaith a wnaed yn ddiweddar yn cynnwys ail-ysgrifennu polisi iechyd a diogelwch yr Undeb Athletau a chynnal adolygiad o glybiau a chymdeithasau sy'n peri risg uwch er mwyn sicrhau bod eu gweithdrefnau'n cydymffurfio â chyfarwyddyd arfer da. Yn ogystal â hyn, rhoddir hyfforddiant iechyd a diogelwch i gapteiniaid clybiau a chymdeithasau i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau iechyd a diogelwch a beth mae hynny'n ei olygu'n ymarferol.
- ii. *Myfyrwyr wirfoddolwyr*: Mae nifer fawr o fyfyrwyr yn gwneud gwaith gwirfoddol ar brojectau amrywiol iawn, yn cynnwys glanhau traethau a chefnogi Uned Hergest Ysbyty Gwynedd. Fel rhan o'r drefn o reoli gwirfoddolwyr, mae pob myfyriwr sy'n gweithio gyda phlant yn destun datgeliad manwl (CRB). Rhagwelir y bydd yr agwedd hon ar weithgaredd yr undeb yn cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.
- iii. *Ymdrin â damweiniau a digwyddiadau*: Y digwyddiad mwyaf arwyddocaol yn ddiweddar oedd pan fu i un o gychod y clwb rhwyfo droi drosodd ar y Fenai. Mae gwaith amlasiantaeth wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol gyda'r clwb yn symud i Lyn Padarn lle mae'r risgiau'n llawer is oherwydd nad oes llanw yno. Mae'r safle hefyd yn cynnig mwy o gyfleoedd i drefnu digwyddiadau rhwyfo rhyng-golegol, a hybu Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol.
- iv. *Gwaith amlasiantaethol* Mae Undeb y Myfyrwyr yn cydweithio'n agos gydag amrywiaeth o sefydliadau mewnol ac allanol er mwyn hwyluso ei gweithgareddau. Er enghraifft, mae'r undeb wedi cydweithio gyda'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, yr Adran Ystadau a Chyfleusterau, Parc Gwledig Padarn a'r heddlu lleol i drefnu digwyddiad bws y Fflam Olympaidd.
- v. *Ymgyrchoedd myfyrwyr*: Mae'r undeb yn trefnu ymgyrchoedd rheolaidd ac mae'r rhain wedi cynnwys y canlynol:
 - 'Reclaim the Night': Digwyddiad ar y cyd rhwng y myfyrwyr a'r gymuned dan arweiniad Cymdeithas y Merched i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â diogelwch merched ym Mangor. Roedd y digwyddiad yn cynnwys gorymdaith o amgylch Bangor ac yna trafodaethau gyda grwpiau cymunedol lleol a'r heddlu.
 - Arolwg aflonyddu myfyrwyr Mae arolwg ar-lein oedd yn gofyn i fyfyrwyr am eu barn a'u profiad o fyw ym Mangor newydd ddod i ben. Mae'r canlyniadau'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a'r gobaith yw y byddent yn nodi newidiadau cadarnhaol, yn enwedig ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol.
 - Iechyd a lles: Cynhelir wythnosau byw yn iach i staff a myfyrwyr yn rheolaidd ar y cyd â'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch i gefnogi a hybu byw yn iach. Er enghraifft, diet, ymarfer corff ac ymarfer da o ran iechyd rhywiol.

398. ADRODDIAD AR DDIOGELWCH YR YSTÂD

Cyflwynwyd crynodeb o holl weithgareddau'r Adran Ystadau a Chyfleusterau. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys cynnal a chadw ymatebol, gwaith project, cynlluniau gwario i arbed arian, gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion deddfwriaethol a gwella'r ystâd er budd y staff a'r myfyrwyr.

Caiff strategaeth ystadau newydd ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd y strategaeth yn edrych ar y materion cynnal a chadw sy'n aros yn ogystal â dyfodol yr ystâd.

Er nad yw'r Swyddfa Neuaddau'n rhan o'r Adran Ystadau a Chyfleusterau mwyach, mae'n parhau i droi ati am gyngor a chefnogaeth.

Mae'r adran yn cydnabod bod angen parhau i wella'r ffordd mae hi'n cyfathrebu gyda'r colegau a'r adrannau.

399. UNRHYW FATER ARALL

- i. Mae'r gofyniad adrodd statudol (RIDDOR) i adrodd am anafiadau y mae eu heffeithiau'n para mwy na thridiau wedi cynyddu i anafiadau y mae eu heffeithiau'n para mwy na saith niwrnod. Ond bydd y Brifysgol yn parhau i gofnodi anafiadau y mae eu heffeithiau'n para mwy na thridiau er mwyn cysondeb wrth ddadansoddi ystadegau ar ddamweiniau.
- ii. Penodwyd Lisa Fowlie, y Cynghorydd Iechyd a Diogelwch, yn gadeirydd pwyllgor archwilio a risg yr IOSH.